

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Wrecsam

Adroddiad Asesu Blynyddol 2018/19

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Wrecsam i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Gwnaeth Wrecsam fodloni 10 o'r 12 hawl graidd yn llawn, un ohonynt yn rhannol a methu â bodloni un ohonynt.

O'r 10 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Wrecsam 5 ohonynt yn llawn, 2 ohonynt yn rhannol, a methodd â chyflawni 3 ohonynt.

Mae gwasanaeth llyfrgell Wrecsam yn nodi perfformiad cymysg yn ail flwyddyn y chweched fframwaith, ac mae'n amlwg bod problemau capasiti yn dal i effeithio ar ddarpariaeth mewn nifer o feysydd. Er bod niferoedd ymwelwyr wedi parhau i wella, maent yn dal i fod yr isaf yng Nghymru, ac mae meysydd eraill o ddefnydd y llyfrgelloedd wedi dirywio, gyda gostyngiad arall sylweddol iawn yn y nifer sy'n manteisio ar arlwy hyfforddiant swyddogol y gwasanaeth. Byddai'n briodol i'r gwasanaeth fyfyrion ar y ffactorau sydd wrth wraidd rhai o'r amrywiadau trawiadol, weithiau, mewn perfformiad o un flwyddyn i'r llall. Er y bu'r lefelau staffio yn sefydlog yn 2018/19, mae eisoes wedi'i nodi y bydd nifer y staff ar gyfer 2019/20 yn lleihau. Gyda'r lefelau staffio cyffredinol ymhlith yr isaf yng Nghymru eisoes, bydd hyn yn effeithio ymhellach ar gapasiti'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth hefyd yn dechrau cyfnod adolygu arall, gydag Adolygiad Gwasanaeth Llyfrgell llawn dwy flynedd (2019-21) ar y gweill. Mae Wrecsam eisoes wedi gweld cyfnod estynedig o newid ac ailffurfio, a bydd ansicrwydd ariannol a strwythurol parhaus yn siŵr o effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir. Dylai'r rôl allweddol y mae llyfrgelloedd yn ei chwarae i gefnogi cymunedau Wrecsam fod wrth wraidd yr adolygiad presennol, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu ymateb a datblygu er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr sy'n newid.

- Mae cymorth TGCh sylfaenol bellach ar gael ym mhob prif fan gwasanaeth, ac mae'r gwasanaeth yn rhoi lefel dda o gymorth ar gyfer iechyd a lles .
- Mae'r niferoedd sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol wedi lleihau unwaith eto, ar ôl haneru bron, ac er bod y niferoedd a gafodd eu helpu drwy hyfforddiant anffurfiol wedi gwella, Wrecsam sydd â'r niferoedd isaf yng Nghymru o hyd.
- Mae nifer yr ymwelwyr a'r niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau yn y llyfrgell wedi parhau i gynyddu, ond erys cyfanswm nifer yr ymweliadau ymhlith yr isaf yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o feysydd eraill o ran y defnydd a wneir o lyfrgelloedd wedi dirywio, gyda'r perfformiad islaw'r lefel ganolrifol ar y cyfan.
- Er nad yw'r targedau ar gyfer cyfanswm yr eitemau a gaffaelwyd wedi cael eu cyflawni, mae cyllidebau wedi cynyddu; mae Wrecsam yn parhau i gyflawni'r targedau ar gyfer caffael adnoddau Cymraeg.
- Bydd y gwasanaeth yn adolygu ei ddarpariaeth TGCh fel rhan o Adolygiad ehangach o'r Gwasanaeth Llyfrgell er mwyn targedu darpariaeth yn fwy effeithiol i adlewyrchu

defnydd cwsmeriaid, ond nid yw'r broses o gyflwyno Wi-Fi ym mhob cangen wedi'i chwblhau eto.

- Mae'r perfformiad o ran cyflenwi ceisiadau yn parhau i ddirywio, ac nid yw'r naill darged na'r llall yn cael eu cyflawni mwyach; nodir y lleihad mewn adnoddau staffio fel ffactor o ran hyn.
- Mae lefelau staffio cyffredinol a lefelau staffio proffesiynol wedi aros yr un fath yn 2018/19, ond mae'r naill a'r llall islaw'r targedau a bennwyd, ac mae arwyddion eisoes y bydd y rhain yn gostwng eto yn y flwyddyn sydd i ddod.
- Mae cyfanswm yr oriau agor blynyddol hefyd wedi parhau ar yr un lefel, ond mae'r oriau a gynigir gan Wrecsam dal ymhlith yr isaf yng Nghymru; ond ceir mynediad estynedig drwy ddarparu oriau heb staff ychwanegol mewn un llyfrgell gangen.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1 Hawliau craidd

Mae Wrecsam yn cyflawni 10 o'r 12 hawl graidd yn llawn, yn cyflawni un yn rhannol, ac yn methu â chyflawni un arall. Gan nad yw Wi-Fi ar gael eto ym mhob man gwasanaeth llyfrgell dim ond yn rhannol y caiff HG7 ei chyflawni. Mae Adolygiad dwy flynedd o'r Gwasanaeth Llyfrgell wrthi'n cael ei gynnal gyda'r nod o ymchwilio i'r ffordd orau o ddiwallu anghenion cwsmeriaid presennol ac yn y dyfodol; bydd y gwaith o ddatblygu strategaeth i'r cyhoedd ar gyfer y gwasanaeth yn rhan o'r broses adolygu hon ac ni chaiff CE12 ei chyflawni nes bod hon wedi'i chwblhau.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a deg ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Wrecsam yn cyflawni 5 yn llawn, 2 yn rhannol ac yn methu â chyflawni 3 o'r dangosyddion.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol	Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓
c) Cymorth e-lywodraeth	✓
d) Datblygu darllenwyr	✓
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles	Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	✓
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓

DA 6 – Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	✓	Cyflawni'n llawn
DA 7 – Lleoliad manau gwasanaeth	✓	Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau y pen o'r boblogaeth	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau y pen o'r boblogaeth	x	
DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg	✓	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg y pen o'r boblogaeth	x	
DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n rhannol
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwyd	✓	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	x	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Heb ei gyflawni
a) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 7 diwrnod	x	
b) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 15 diwrnod	x	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff y pen o'r boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig y pen o'r boblogaeth	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 – Oriau agor y pen o'r boblogaeth	x	Heb ei gyflawni

Mae perfformiad Wrecsam wedi dirywio ychydig o gymharu â 2017/18, gyda gostyngiad yn y gwariant y pen o dan DA 10. Mae'r gwasanaeth hefyd yn methu â chyflawni'r naill darged a'r llall ar gyfer cyflenwi ceisiadau (DA 12) bellach.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 1. Mae'r ffigurau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod 2017/18 neu 2018/19. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Wrecsam arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion ym mis Tachwedd 2017; ond mae'r broses o gwblhau ei arolwg i blant wedi cael ei gohirio yn ystod yr Adolygiad presennol o'r Gwasanaeth. Er bod ffigur wedi'i nodi ar gyfer DA 5 b) isod, nid yw'r sampl a arolygwyd yn bodloni'r gofyniad sylfaenol i fod yn ystadegol gywir.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	dd/b		60%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	80%	13/15	38%	88%	95%

DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	93%	=16/20	80%	97%	100%
--	-----	--------	-----	-----	------

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Wrecsam ddwy astudiaeth achos o'r fath, ond gellid bod wedi cynnwys tystiolaeth gryfach o'r effaith ar unigolion / grwpiau:

- Mwy na Jig-so – y ffordd y mae gweithgareddau syml, fel gosod jig-so allan i gwsmeriaid ei gwblhau, yn effeithio ar ddefnyddwyr. Mae'r jig-so wedi bod yn boblogaidd iawn, gan ddenu cyfranwyr hen ac ifanc. Yn achos un fenyw, mae wedi dod yn nodwedd reolaidd ar ei defnydd o'r llyfrgell, rhywbeth y mae'n ei fwynhau ac sy'n ymlaciol, gan ychwanegu at rôl y llyfrgell fel 'lle cymdeithasgar'.
- Llyfrgell Gwersyllt – sut y cafodd newidiadau i'r model gweithredol yn y llyfrgell hon eu rhoi ar waith. Gan ddefnyddio technoleg newydd (gan gynnwys ciosgau hunanwasanaeth) a gyda chymorth partneriaeth, ymestynnwyd oriau agor y llyfrgell y tu hwnt i'r 21 awr wreiddiol gyda staff i 40 awr yr wythnos. Cafwyd adborth cadarnhaol gan gwsmeriaid, ond mae'r defnydd o'r cyfleusterau hunanwasanaeth yn dal yn gyfran fach o'r defnydd cyffredinol.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Wrecsam ar gyfer 2018/19. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Mae ffigurau o flwyddyn gyntaf y chweched fframwaith neu arolygon blaenorol perthnasol hefyd wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu. Caiff dangosyddion 'y pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2017/18	
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					[Fframwaith 5]	
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	63%	12/15	24%	82%	96%	dd/b
c) iechyd a lles	62%	8/15	33%	62%	94%	dd/b
d) lle diogel a chroesawgar	90%	15/15	90%	97%	100%	dd/b
DA 2 – Boddhad cwsmeriaid					[Fframwaith 5]	
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	91%	=6/14	81%	91%	98%	dd/b
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	93%	14/14	93%	99%	100%	dd/b
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	74%	12/13	65%	91%	95%	
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	93%	14/14	93%	97%	99%	dd/b
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	dd/b		8.5	9.3	9.5	dd/b
DA 5 – Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr y pen o'r boblogaeth	32	10/22	13	30	208	61
c) hyfforddiant anffurfiol y pen o'r boblogaeth	29	22/22	15	199	433	15

DA 6 – Mynychwyr mewn digwyddiadau y pen o'r boblogaeth	198	16/22	91	295	689	200
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell ¹						
a) ymweliadau y pen o'r boblogaeth	2,722	21/22	2,596	3,969	7,170*	2,690
b) rhith-ymweliadau y pen o'r boblogaeth	355	20/22	345	885	2,205	571
c) benthycwyr gweithredol y pen o'r boblogaeth	127	14/22	58	150	251	131
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg y pen o'r boblogaeth ²	752	10/22	95	602	1,424	701
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron y pen o'r boblogaeth ³	14	2/22	5	10	14	14
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	17%	=20/22	14%	25%	63%	17%
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	dd/b		3	30	214	dd/b
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	dd/b		90	1,477	9,806	dd/b
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant y pen o'r boblogaeth	£9,967	16/22	£7,181	£12,145	£19,449	£11,907
b) % ar staff	64%	10/22	47%	62%	78%	58%
% ar adnoddau gwybodaeth	14%	7/22	8%	13%	21%	11%
% ar offer ac adeiladau	4%	12/22	0.4%	4%	25%	11%
% ar gostau gweithredol eraill	19%	10/22	0.3%	16%	37%	20%
c) gwariant cyfalaf y pen o'r boblogaeth	£373	13/22	£0	£467	£8,829	dd/b
DA 15 – Cost net am bob ymweliad	£2.17	6/22	£1.18	£1.82	£2.52	£2.24
DA 16 – Oriau agor ⁴						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.00%	0.25%	1.28%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	2.42%	17/20	0.00%	0.28%	7.99%	1.49%

¹ rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân

² fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ffigurau o adroddiadau 2017/18 wedi'u cywiro yn dilyn gwall cyfrifo

³ fesul 10,000 o'r boblogaeth breswyl ⁴ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf y chweched fframwaith (2017/18).

3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Cynhaliodd Wrecsam arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion yn ystod mis Tachwedd 2017, ond mae ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n blant wedi cael ei ohirio yn ystod yr Adolygiad presennol o'r Gwasanaeth. Er nad oes Wi-Fi ar gael mewn pedair o lyfrgelloedd y gwasanaeth, rhoddir cymorth sylfaenol ar gyfer defnydd TGCh, ac ystyrir bod DA 3 wedi'i gyflawni bellach. Nodir bod pob llyfrgell yn bodloni'r gofynion o ran cymorth ar gyfer iechyd a lles, ac mae DA 4 yn dal i gael ei gyflawni'n llawn. Mae'r niferoedd cofnodedig sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant a drefnwyd ymlaen llaw wedi haneru bron ers 2017/18 (a oedd wedi gostwng 44% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol). Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, gwnaeth y niferoedd a gafodd eu helpu drwy hyfforddiant anffurfiol ddyblu bron,

ond erys y perfformiad o ran hyn ar y lefel isaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Byddai ychydig fyfyrion ar y ffactorau sy'n cyfrif am yr amrywiadau trawiadol hyn o flwyddyn i flwyddyn yn briodol.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Wrecsam yn parhau i fodloni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, ac mae wedi gweld mwy o ymweliadau ffisegol â llyfrgelloedd, a mwy yn mynychu digwyddiadau a gweithgareddau yn y llyfrgell, ond erys nifer yr ymhelwyr yn gyffredinol ymhlith yr isaf yng Nghymru. Er bod aelodaeth llyfrgell wedi cynyddu hefyd, mae'r rhan fwyaf o feysydd eraill o ran y defnydd a weir o lyfrgelloedd wedi dirywio, gyda'r perfformiad islaw'r lefel ganolrifol ar y cyfan. Mae'n werth nodi bod Wrecsam yn un o ychydig iawn o wasanaethau llyfrgell yng Nghymru lle na welwyd cynnydd yn nifer y lawrlwythiadau electronig dros y flwyddyn. Unwaith eto, byddai ychydig o ystyriaeth o'r ffactorau sy'n sail i'r newidiadau mewn perfformiad wedi cryfhau'r datganiad.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)¹

Bu cynnydd mewn gwariant ar ddeunyddiau yn 2018/19, sydd i'w groesawu, ond erys y perfformiad islaw lefelau'r targed ar gyfer DA 9. Mae gwariant ar adnoddau i blant ac eitemau Cymraeg hefyd wedi cynyddu, gyda Wrecsam yn parhau i gyflawni'r targedau ar gyfer caffael adnoddau Cymraeg, a chynnydd cysylltiedig yn nifer yr eitemau a fenthycir yn y maes hwn. Mae'r ddarpariaeth o gyfrifiaduron personol wedi cael ei chynnal, ac erys ar lefel nodedig o uchel, gyda lefelau defnyddio isel o ganlyniad. Er y nodir bod darpariaeth Wi-Fi yn ffactor arall sy'n effeithio ar ddefnydd o ran hyn, nid yw'r gwasanaeth wedi cwblhau'r broses o gyflwyno Wi-Fi eto ym mhob man gwasanaeth. Nodir y caiff darpariaeth TGCh y gwasanaeth ei hystyried fel rhan o'r Adolygiad ehangach o'r Gwasanaeth Llyfrgell er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu defnydd cwsmeriaid. Mae'r perfformiad o ran cyflenwi ceisiadau yn parhau i ddirywio, ac nid yw'r naill darged na'r llall yn cael eu cyflawni mwyach; nodir y lleihad mewn adnoddau staffio fel ffactor o ran hyn.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae lefelau staffio cyffredinol a nifer y staff proffesiynol yn debyg i 2017/18 fwy neu lai, yn sgil colledion blaenorol, ond nodir y bydd nifer y staff ar gyfer 2019/20 yn lleihau ymhellach. Mae adnoddau staffio eisoes yn faes sy'n achosi pryder. Nid yw'r naill darged na'r llall yn y meysydd hyn yn cael eu cyflawni ac mae'r lefelau staffio cyffredinol ymhlith yr isaf yng Nghymru. Fodd bynnag, mae arweinyddiaeth gymwysedig yn ei lle ac mae'r gofynion o ran hyfforddiant / datblygiad proffesiynol staff yn cael eu bodloni. Wrecsam yw'r unig awdurdod yng Nghymru lle nad yw gwirfoddolwyr yn cyfrannu at waith y gwasanaeth.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng ers 2017/18, ac mae bellach islaw'r lefel ganolrifol i Gymru gyfan, ond mae'r gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi yn ei ystâd lyfrgelloedd o'i gyllidebau cyfalaf. Mae cyfanswm yr oriau agor blynyddol wedi parhau ar yr un lefel, ond maent yn dal ymhlith yr isaf yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth wedi ymestyn mynediad drwy ddarparu oriau heb staff mewn un llyfrgell gangen, ond mae'r trefniant hwn yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth ag un o dimau eraill y cyngor i agor y safle.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Nododd Wreccsam newidiadau i Gynllun Cyngor Wreccsam y mae'n gweithio oddi tano, gyda ffocws ar gyflawni blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn yn unol ag amcanion llesiant y Cyngor. Manylir ar gyfraniad y gwasanaeth llyfrgell at gyflawni'r amcanion hyn, a Nodau Llesiant ehangach Cymru ymhellach: cefnogi dysgu a datblygu sgiliau; adeiladu cymunedau cryf; helpu i fynd i'r afael â thlodi; a lleihau anghydraddoldeb.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Yn ei adroddiad ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn ganlynol, mae Wreccsam yn nodi'r her i'r gwasanaeth sy'n gysylltiedig â gweithredu'n fwy effeithlon ac effeithiol gyda llai o gyllidebau. Mae'r naratif yn canolbwyntio ar Adolygiad 2019-21 o'r Gwasanaeth Llyfrgell fel modd i'r gwasanaeth weithredu'n fwy dynamig, gyda gwell cysylltiadau â'i gymunedau lleol. Ymhlith y datblygiadau allweddol a nodwyd fel rhan o'r gwaith hwn mae ymchwilio i ffyrdd o foderneiddio'r gwasanaeth, gan gynnwys modelau newydd o ddarparu gwasanaethau, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n gynaliadwy, yn hyfyw ac yn fforddiadwy. Fodd bynnag, mae'r cyd-destun gweithredol lle mae llai o adnoddau, a'r toriadau sylweddol tebygol mewn cyllidebau yn y dyfodol yn ffactor amlwg sy'n ysgogi'r gwaith hwn.

6 Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgell Wreccsam yn nodi perfformiad cymysg yn ail flwyddyn y chweched fframwaith, ac mae'n amlwg bod problemau capasiti yn dal i effeithio ar ddarpariaeth mewn nifer o feysydd.

Er bod niferoedd ymwelwyr wedi parhau i wella, maent yn dal i fod yr isaf yng Nghymru, ac mae meysydd eraill o ddefnydd y llyfrgelloedd wedi dirywio, gyda gostyngiad arall sylweddol iawn yn y nifer sy'n manteisio ar arlwy hyfforddiant swyddogol y gwasanaeth. Byddai'n briodol i'r gwasanaeth fyfyrion ar y ffactorau sydd wrth wraidd rhai o'r amrywiadau trawiadol, weithiau, mewn perfformiad o un flwyddyn i'r llall. Er y bu'r lefelau staffio yn sefydlog yn 2018/19, mae eisoes wedi'i nodi y bydd nifer y staff ar gyfer 2019/20 yn lleihau. Gyda'r lefelau staffio cyffredinol ymhlith yr isaf yng Nghymru eisoes, bydd hyn yn effeithio ymhellach ar gapasiti'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth hefyd yn dechrau cyfnod adolygu arall, gydag Adolygiad Gwasanaeth Llyfrgell llawn dwy flynedd (2019-21) ar y gweill. Mae Wreccsam eisoes wedi gweld cyfnod estynedig o newid ac ailffurfio, a bydd ansicrwydd ariannol a strwythurol parhaus yn siŵr o effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir. Dylai'r rôl allweddol y mae llyfrgelloedd yn ei chwarae i gefnogi cymunedau Wreccsam fod wrth wraidd yr adolygiad presennol, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu ymateb a datblygu er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr sy'n newid.

¹Mae e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog wedi cael eu heithrio o'r ffigurau caffael ar gyfer DA 9 yn 2018/19 er mwyn sicrhau bod y safon yn adlewyrchu strategaeth, buddsoddiad a pherfformiad unigol yr awdurdod yn gywir. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi effeithio ar gyflawniad yn erbyn y safon o gymharu â 2017/18. Mae Ffurflenni Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gynhyrchir yn ganolog.